**Root & Branch yn Oriel Mission**

**Bywgraffiadau'r artistiaid**

---

### Janice Affleck (Yr Alban)

Ceramegydd o'r Alban yw Janice. Wedi'i geni yn Glasgow, astudiodd Bensaernïaeth cyn symud i Asia am 15 mlynedd, gan gwblhau doethuriaeth ym Mhrifysgol Hong Kong ac ymgymryd â cherameg tra ar famolaeth.

Ar ôl dychwelyd i Glasgow, dechreuodd ymchwilio i ddulliau safle-benodol o weithio i adlewyrchu ysbryd y lleoedd y mae wedi eu hailddarganfod a chanddi gysylltiad cynhenid â nhw. Mae ei gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar wneud modelau a mowldiau plastr, gan gyfuno cerameg â modelu digidol, torri, argraffu, arlunio â llaw a ffotograffiaeth.

https://www.janice-affleck-ceramics.com/

### Patricio Álvarez Aragón (Chile/Yr Almaen)

Hanesydd celf ac artist hybrid-awtomatig yw Patricio Álvarez Aragón (ganed yn Santiago de Chile, 1984) ac yn egin-guradur sy'n byw yn Freising (München, Yr Almaen) er 2021. Mae'n ei ddisgrifio ei hun fel catalydd a symbylydd cynnwys/cynnyrch newydd. Fel artist hybrid, mae ganddo lawer o ddiddordeb mewn ymchwilio i "awtomatiaeth" a'i datblygu fel allwedd i greu celfyddyd gyfoes (ieithoedd traddodiadol) a chelfyddydau cyfryngau newydd.

https://readymag.com/lampatricio/2587337/patricioaarng_biography/

IG: patricioaragorn

### Inguna Audere (Latfia)

Artist o Latfia yw Inguna." *Gan mwyaf dw i'n cael ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith creadigol yn nigwyddiadau a gwrthrychau bywyd pob dydd sydd i'w gweld yn ddibwys. Mae eu hystyr yn cynyddu'n ddirfawr yn yr amserau pan fydda i'n*

*llwyddo i ddal a chofnodi ennyd a all wedyn gael ei thrawsnewid yn drosiad gweledol – gwaith celf."*
http://www.inguna-art.com

**Olga Blokh (Y Ffindir)**

Ceramegydd o'r Ffindir yw Olga sy'n gwneud darnau unigryw â llaw.
https://blochceramics.fi/

**Evy Cohen (Ffrainc)**

Ffotograffydd a gwneuthurydd gwydr o Ffrainc yw Evy.
*"Bydda i'n dal tameidiau o fywyd, cipluniau diamser neu fanylyn yn natur sydd, unwaith iddynt gael eu hynysu, yn colli eu realiti. Dw i'n ymchwilio i'r canfyddiad sydd gynnon ni o sylwedd a bodolaeth sy'n ein hamgylchynu. I mi, cyfoethogi'r emosiynau a wna gwydr, deunydd synhwyrus sy'n gwahodd rhywun i'w gyffwrdd, gofod sy'n rhoi rhyddid i'r delweddau. Mae'r rhain yn ymgymryd â dimensiwn newydd, y golau'n denu'r llygad i ddyfnder y darn, gan ei arwain mewn ysbaid o synfyfyrdod".*
https://evycohen.com/

**Menter Gydweithredol IRMA (Latfia)**

Menter gydweithredol artistiaid yw IRMA o Riga yn Latfia. Endid trawsgenedlaethol yw hi dan gyfarwyddyd Inguna Audere a Michael Rogers. Mae tri phrif gategori i IRMA: creadigol, addysgol a churadurol. Nod IRMA yw creu dulliau cyfathrebu agored rhwng pobl.
https://www.facebook.com/IRMACollaborative2019/

**Robert Davies (Cymru)**

Cerflunydd o Gymru yw Robert Davies. Mae Robert yn defnyddio gwahanol gyfryngau yn ei waith i adlewyrchu'r pwnc dan sylw. Mewn prosiectau blaenorol mae wedi defnyddio ffotograffiaeth, arlunio a ffilm mewn cysylltiad â

gwaith sy'n ystyried natur haniaethol ffotograffiaeth, ein perthynas ag anifeiliaid neu'r argyfwng hinsawdd. Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth ar ap geo-leoledig sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd.
https://www.robertwdavies.uk

**Madeleine Doré (Canada/Ffrainc)**
Yn artist amlddisgyblaethol o Quebec, datblygodd waith yn ymwneud â symudedd. Yn artist crwydrol, cychwynnodd y mudiad *bonheur d'occasion.* Mae ei gwaith ar hapusrwydd, ar fyw yn y presennol, yn berfformiad crwydrol hir sy'n seiliedig ar gyfnewid a chyfathrebu. Cafodd amryw o grantiau gan gyngor celfyddyd Quebec. Mae wedi curadu digwyddiadau safle-benodol a hefyd yn ysgrifennu adolygiadau celf.
https://www.tadlachance.com/2020/02/les-artistes-de-tadlachance-madeleine-dore.html

**Michelle Dovey (Cymru)**
Peintwraig o Sir Benfro yw Michelle. Ganed Michelle yn Lloegr a'i magu yn Seland Newydd a gorffennodd ei gradd gyntaf yn Seland Newydd. Cwblhaodd ei gradd feistr yn yr Ysgol Celfyddydau Gweledol yn Efrog Newydd. Gan ddychwelyd i Loegr, bu'n byw yn Llundain am flynyddoedd lawer. Mae'n arddangos gyda Gimpel Fils er 2006. Un o aelodau sefydlu grŵp yr Arborealists yw hi. Mae Michelle yn cael hyd i ysbrydoliaeth mewn paentio coed, yn enwedig coed derw.
https://www.michelledovey.com

**Winnie Tak Kwan Fung (Hong Kong)**
Graddiodd o Goleg y Gofaint Aur, Prifysgol Llundain gyda BA (Anrhydedd) mewn Celfyddyd Gain ym 1995. Ar ôl dychwelyd i Hong Kong, mae wedi ymwneud â chydlynu arddangosfeydd, cwmni ymgynghori ym maes celfyddyd a

thiwtora yn y ganolfan gelfyddyd i blant a'r Ysgol Uwchradd (gweithgarwch celf). Erbyn hyn mae'n gweithio fel gweinyddwraig theatr ran-amser.

https://www.facebook.com/winnie.fung.5686

IG: winnie.fung.5686

**Kim Dotty Hachmann (Yr Almaen)**

Graddiodd â Gradd Feistr mewn Cyfryngau Newydd yn Academi Gelfyddydau Kassel, Yr Almaen yn 2001. Mae Kim yn ymdrin â thestunau sy'n ymwneud â'r teulu mewn fideos byrion, gosodweithiau fideo a chyfresi o ffotograffau. Mae'n darlunio'r gwrthgyferbyniadau unigoliaeth a chymuned, agosatrwydd a ffiniau, grym a gwendid mewn ffordd ddoniol a barddonol sydd weithiau'n grotésg.

http://www.kimdottyhachmann.de

**Kenneth Hay (Ffrainc)**

Peintiwr yw Kenneth o Inverness yn yr Alban sydd bellach yn byw yn ne Ffrainc. Artist, awdur ac athro yw e, yn Athro Emeritws Ymarfer Celfyddyd Gyfoes ym Mhrifysgol Leeds (adran a sefydlwyd ganddo) ac Athro Gwadd mewn Estheteg ym Mhrifysgol Masaryk, Brno, Y Weriniaeth Tsiec.

https://www.instagram.com/kennethghay/

**Nung-Hsin Hu (Taiwan/UDA)**

Artist amlddisgyblaethol yw Nung-Hsin Hu a aned yn Nhaiwan ac sy'n byw yn yr Unol Daleithiau. Mae'n cydblethu ffilm, fideo, perfformio a gosodwaith yn ei gwaith i ddatgelu'r statws anweledig, lleisio'r anymwybodol a pherfformio'r hyn sy'n agored i niwed drwy ddull barddonol ac ysmala.

http://nunghsinhu.com/

IG: nunghsin.hu

**Herbert W.H. Hundrich (Yr Almaen)**

Artist a churadur llawrydd, cerfluniau, gwrthrychau, arluniau, paentiadau, gosodwaith, golau a ffilm, *Gesamtkunstwerk* (cyfanwaith celf)

https://hundrich.de/

IG: hundrich

**Rachel Hiu Yin Ip (Hong Kong)**

Artist gweledol, curadur ac addysgydd celf yw Rachel Hiu Yin Ip. Arddangosodd ei gweithiau ffotograffig yn Hong Kong, Tsieina a Lloegr. Mae hefyd yn dysgu celf a ffotograffiaeth ac yn ysgrifennu am gelfyddyd. Colofnydd yng nghylchgrawn *Milk and Res()nate*. Ymhlith ei chyhoeddiadau mae *100 Self-portraits of Hongkongese*. Cyflwynydd gwadd ar gyfer *Aesthetic Encounter II* RTHK. Darlithydd prifysgol ar hyn o bryd.

https://www.facebook.com/IPhiuyin.Rachel

IG: rache.liphiuyin

**Anca Ion (Brasil)**

Artist o Rwmania yw Anca sy'n byw ym Mrasil. Mae'n gweithio'n bennaf mewn cerameg ac mae ei gwaith yn ymdrin â bioamrywiaeth a materion amgylcheddol.

https://ancaion.wixsite.com/ancaion

**Robert Jakes (Cymru)**

Cerfiwr a cherflunydd pren yw Robert o Sir Benfro. Mae Robert yn creu cerfiadau mawr mewn coed derw, cerfluniau goleuedig i orymdeithiau, bwâu mynedfeydd, seddau cerfluniol, meinciau, seddau adrodd straeon ac amryw o brosiectau eraill mewn ymateb i leoliadau a chymunedau penodol, ysgolion a choedwigoedd yn y DU a thramor.

http://www.robertjakes.co.uk/

**Agnes Ku (Hong Kong)**

Yn gymdeithasegydd o ran ei phroffesiwn, artist gweledol amaturaidd yw Agnes Ku sy'n canolbwyntio ar ffotograffiaeth. Derbyniodd ddiploma ôl-raddedig mewn ffotograffiaeth yn 2016 gan gynnal ei harddangosfa un-ddynes gyntaf yn 2017. Mae ei ffoto-lyfr, *Where Time Turns Black*, wedi ennill sawl gwobr ryngwladol.

https://www.facebook.com/agnes.ku.58

IG: agnestaipo

**Wai Kit Lam (Hong Kong)**

Ganed yn Hong Kong ym 1966. Graddiodd gyda MFA o Brifysgol Tsieineaidd Hong Kong (2003) a BA (Anrhydedd) mewn Celfyddyd Gain o Goleg y Gofaint Aur, Prifysgol Llundain (1996). Roedd testun ei hymchwil yn cynnwys hunaniaeth, bregustra dynol, agosatrwydd a'r rhyngberthynas â'r amgylchiadau sydd ohonynt. Roedd ei chyfryngau'n cynnwys ffotograffiaeth, celf fideo, testun, sain a gosodwaith.

https://www.waikitlam.com/

IG: waikitlambotella

**Joe Lau (Hong Kong/Taiwan)**

Yn frodor o Hong Kong sydd bellach yn byw yn Tainan/Taiwan. Wedi'i eni yn TG, dan gysgod "rhesymoldeb" am ddwy ran o dair o'i fywyd. Wedi graddio o SPACE Prifysgol Hong Kong gyda Diploma Ôl-raddedig mewn Ffotograffiaeth yn 2012. Hefyd wedi cymryd rhan mewn amryw o weithdai dogfennol yn Lumenvisum a bu'n rhan o sawl arddangosfa ar y cyd.

https://j-foto.photography/works

IG: cafe_or_not_a_cafe

**Siân Lester (Cymru)**

Artist o Sir Benfro yw Siân. Mae Siân yn gweithio fel dylunydd tecstiliau ac artist llawrydd ac mae ganddi ymrwymiad cryf i ymdrin â lliwiau naturiol a phrosesau hanesyddol yn ei gwaith. Mae'n creu cynlluniau tecstiliau gwreiddiol sy'n gwerthu'n llwyddiannus ar draws y byd yn y diwydiant dodrefnu cartref a ffasiwn.
http://www.sianlester.com

**Susana López Fernández (Sbaen)**
Artist gweledol o Sbaen yw Susana. Yn ei gwaith, mae'r ffiniau rhwng ffotograffiaeth a phaentio'n aneglur. Mae'n hoffi defnyddio offer o'r ddau faes i gyfleu beth mae hi eisiau, beth sy'n ennyn ei diddordeb, pethau sy'n peri pryder iddi, beth mae'n ei deimlo neu beth mae'n ei garu.
https://susanalf.es/
IG: caracollllf

**Bim Mason (Cymru)**
Artist o Gymru yw Bim. Ef yw cyd-sefydlydd a Chyfarwyddwr Artistig Circomedia, Canolfan y Syrcas Gyfoes a Pherfformio Corfforol. Yn berfformiwr sydd â 35 mlynedd o brofiad proffesiynol gyda'r grwpiau theatr syrcas arloesol Kaboodle a'i grŵp ei hun Mummer&Dada. Mae'n enwog am ei waith gyda theatr y stryd ac fel gwneuthurydd mygydau. Mae ei Bigheads wedi teithio'n fyd-eang.
*"Mae gen i ddiddordeb mewn ffurfiau poblogaidd ar berfformio, oherwydd llawenydd eu mynegiant a hefyd fel ffordd o gysylltu a chyfathrebu â sbectrwm eang o bobl. Dw i wedi ceisio dilysu rhai o'r ffurfiau hyn drwy fynegi soffistigeiddrwydd eu nodau a'u dulliau. Ond dw i hefyd yn edrych i adnewyddu ffurfiau sefydledig drwy annog arbrofi a chyflwyno syniadau a chyfuniadau ffres."*
https://www.bimmason.com

**Helen Maurer (y DU)**

Artist o Lundain yw Helen sy'n gweithio â gwydr a golau'n bennaf.

*"Dw i'n ymdrin â gwydr a deunyddiau eraill drwy fwrw golau drwyddynt, eu chwyddo gyda thaflunyddion, mwyhau'r sain y maen nhw'n ei chreu yn y gobaith o ddarganfod rhywbeth annisgwyl. Mae gen i ddiddordeb mewn rhithiau, sefydlogrwydd a graddfa a chael hyd i ffyrdd o gael rhywbeth ar raddfa fawr o'r ffynhonnell leiaf."*

www.helenmaurer.co.uk

**John Merrill (Cymru)**

Cerflunydd pren o ogledd Cymru yw John.

Mae'r rhan fwyaf o'i waith yn cael ei wneud o goed derw gan ddefnyddio naill ai coed sydd wedi'u llorio gan y gwynt neu droadau a chymalau a fyddai fel arall yn cael eu troi'n goed tân ac sydd wedi'u hachub o'r diwydiant coed.

*"Mae coed ar eu ffurf naturiol yn hollol ysblennydd – maen nhw eisioes yn gerfluniau perffaith ac yn enghraifft o un o gyflawniadau peirianyddol go iawn natur.*

*Dw i'n defnyddio technegau a dulliau dylunio cyfoes yn ogystal â thynnu ar gannoedd o flynyddoedd o hanes, crefftwaith a dulliau cadarn sydd wedi hen ennill eu plwyf."*

http://johncmerrill.blogspot.com/

**Penka Mincheva (Bwlgaria)**

Ganed ym 1979 yn Karlovo, Bwlgaria. Graddiodd gydag MA yn yr Academi Gelf Genedlaethol yn Sofia yn 2004. Hi yw un o drefnwyr yr Ŵyl Gelf Proses-Gofod Flynyddol ym Mwlgaria. Mae wedi bod yn artist dethol yn Arte Laguna Arsenale Fenis (2013), Cystadleuaeth M-tel i Gelfyddyd Gyfoes Bwlgaria, Plovdiv (2008), a Phreswyliad BMUKK yn Fienna (2011).

www.penkamincheva.tumblr.com

IG: mincheva_penka

**Cynyrchiadau Moorland (Ffrainc/y DU)**

Sefydlwyd Cynyrchiadau Moorland ym 1996 i ddangos gwaith creadigol Seetha A a Kenneth Hay. Maent yn gweithio ar draws amrywiaeth o gyfryngau gan gynnwys paentio, cerfluniaeth, gosodwaith, argraffu, ffotograffiaeth, fideo a sain.
https://www.moorland-productions.org

**Kika Nicolela (Brasil/Gwlad Belg)**
Artist, gwneuthurydd ffilmiau a churadur annibynnol o Frasil yw Kika Nicolela sy'n byw ym Mrwsel er 2014. Wedi graddio mewn Astudiaethau Ffilm ym Mhrifysgol Sao Paulo, mae Nicolela hefyd wedi cwblhau Gradd Feistr mewn Celfyddydau Cain ym Mhrifysgol y Celfyddydau, Zurich. Gyda fideo a thechnolegau newydd fel offer, mae Nicolela yn cynnig profiadau sy'n cwestiynu'r storïau rydyn ni'n eu dweud am y byd ac amdanon ni'n hunain.
https://www.kikanicolela.com/
IG: kn___studio

**Linda Norris (Cymru)**
Mae Linda yn byw yn Sir Benfro. Mae ei gwaith wedi'i wreiddio yn naws y dirwedd gan ymchwilio i agweddau ar ddiwylliant, iaith, gwyddorau, archaeoleg ac ecoleg sy'n tanategu'r dirwedd a'n gwaddol yng nghyd-destun yr anthroposin. Cychwynnodd Linda'r Prosiect Root and Branch ar y cyd â Wai Kit Lam.
http://www.linda-norris.com

**Danny O'Hara (y DU)**
Gwneuthurydd theatr/cyfarwyddwr yn y DU yw Danny O'Hara. Dyma'r tro cyntaf i Danny weithio â phapur ond fe'i harweinir gan ei brwdfrydedd dros natur, yr amgylchedd a'i hymateb ysbrydol i goed. Yn aml, bydd gwaith Danny yn y gymuned, gyda'r gymuned, gan greu digwyddiadau yn yr awyr agored mewn mannau anarferol, gydag ymatebion amlgyfrwng.
https://www.dannyohara.com/

IG: slowtheatrecompanyuk

**Rachel Phillips (y DU)**

Artist o Sir Benfro yw Rachel. Yn bennaf, peintwraig gwydr yw Rachel a gwneuthurydd gosodweithiau gwydr pensaernïol. Ar y cyd â Linda Norris mae ganddi gwmni gwydr pensaernïol o'r enw Studio Melyn.

https://rachelphillipsglass.com

**Nia Pushkarova (Bwlgaria)**

Artist gweledol (peintwraig, gosodwaith fideo, ffotograffiaeth, darlithydd celf, perfformio). Cadeirydd NGO-IME er 2004. Sefydlydd, curadur a threfnydd Gŵyl Gelf y Tŵr Dŵr (Gwobr EFFE Label Gwyliau Ewropeaidd 2015-16) 2006-2019. Aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr Cymdeithas Gŵyl Bwlgaria er 2015.

http://nia.watertowerartfest.com/

http://watertowerartfest.com/

IG: niapushkarova

**Francoise Rod (Ffrainc/Y Swistir)**

Mae gwaith yr artist Swisaidd/Ffrengig yma'n gyd-destunol ac yn safle-benodol. Mae'n gweithio ar ganfyddiad ac yn datblygu "gweithrediadau gosod" a wneir o siapiau anffurfiol i ystyried y terfyn rhwng delweddau mewnol ac allanol. Mae ei gwaith yn cynnwys rhannu profiadau gweledol mewn cyd-destun penodedig. Cafodd ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Paris VIII yn y celfyddydau gweledol.

http://www.francoiserod.com/

http://action.action.free.fr

https://www.youtube.com/watch?v=vwYrK1v5uSk

**Michael Rogers (Latfia/UDA)**

Artist o'r Unol Daleithiau yw Michael ac yn Athro Emeritws Ysgol Crefftau Americanaidd, Athrofa Dechnoleg Rochester. Ynghynt bu'n dysgu ym Mhrifysgol Addysg Aichi yn Japan am bron i un mlwydd ar ddeg. Mae'n cynnal ei stiwdios ym mhen uchaf talaith Efrog Newydd yn ogystal â Riga, Latfia. Mae Michael yn teithio ac yn arddangos yn rhyngwladol gan ystyried mai agwedd hanfodol ar ei waith artistig yw teithio. Mae Michael hefyd yn weithgar gyda sefydliad celfyddydol sydd heb fod er elw yn Riga, Latfia – Menter Gydweithredol IRMA. Mae gwaith Michael mewn llawer o gasgliadau rhyngwladol gan gynnwys casgliad parhaol Amgueddfa Wydr Corning, UDA.
https://www.michaelrogersart.site

**Ruth Sargeant (Cymru)**

Artist o Sir Benfro yw Ruth. Peintwraig a cheramegydd yw Ruth yn bennaf ac uwchlaw popeth mae ei diddordeb mewn archaeoleg ac ymchwilio i'r cysyniad o le yn ei gwaith.
https://www.ruthsargeant.co.uk

**Erika Tan (Singapor/y DU)**

Artist, curadur ac ymchwilydd yw Erika Tan y mae ei gwaith yn canolbwyntio ar yr ôl-drefedigaethol, trawsgenedlaethol a datdrefedigaethol gan weithio ag arteffactau archifol, hanesion arddangosfeydd, naratifau a dderbynnir, treftadaeth sy'n destun cynnen, lleisiau gorthrymedig a symudiad trawsgenedlaethol syniadau, pobl a gwrthrychau. Ar hyn o bryd Tan yw Cymrodor Celfyddyd Gain Stanley Picker. Mae ei gwaith wedi'i arddangos a'i gasglu'n rhyngwladol.
https://www.erikatan.net/
IG: erikatanlam

**Annette Townsend (Cymru)**

Cerflunydd cwyr o dde Cymru yw Annette.

"*Mae fy ngwaith celf yn ymdrin â natur a'r thema gwarchodaeth. Mae'n canolbwyntio ar y manylion bach cain y bydda i'n sylwi arnynt ym myd natur a all weithiau fod ynghudd neu'n cael eu hanwybyddu. Drwy fy ngwaith celf, fy nod yw cyfuno bregustra a chryfder mewn ffordd unigryw er mwyn creu harddwch a chyfleu gwyddoniaeth, gan ysbrydoli ac annog pobl eraill i sylwi ar fyd natur o'u cwmpas a'i warchod.*"

https://annettemarietownsend.com

**Ming Chong Tse (Hong Kong)**

Yn gyd-sefydlydd Lumenvisum, mae ei waith yn canolbwyntio ar sut mae unigolion yn ymddwyn mewn cysylltiad â hanes a chymdeithas.

https://www.facebook.com/tsemingchong

IG: tsemingchong

**Olga Turetska (Wcráin)**

Daw Olga Turetska o deulu o artistiaid yn Lviv, Wcráin. Astudiodd yng Ngholeg Gwladol y Celfyddydau a Chrefftau Addurnol Trush, Lviv (1999-2003). Yn 2009, graddiodd gydag anrhydedd o adran gwydr celfyddyd Academi Genedlaethol Celfyddydau Cain Lviv. Mae wedi arddangos yn eang yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'n gweithio ym meysydd crefftau a phaentiau olew. Ar hyn o bryd mae Olga'n gweithio fel gwirfoddolwraig yn helpu ffoaduriaid yn Wcráin.

https://olgaglass.com.ua/

**Marcos Vidal Font (Sbaen)**

Graddiodd o Gyfadran y Celfyddydau Cain San Carlos a Phrifysgol Bolytechnig Valencia, Sbaen, ym 1991 ac o Brifysgol Autónoma Coahuila ym Mecsico yn 2019. Mae Vidal yn creu gweithiau penodol ar gyfer cyd-destunau penodol.

Hefyd, fe ddatblygodd system gerdded i ganfod gwrthrychau a'u trosi i ddarnau artistig fel seico-dirluniau neu seico-fapiau.

https://santmarcair.wordpress.com/marcos-vidal-font/

IG: soymujik

**Ian Wieczorek (Iwerddon)**

Artist gweledol sy'n byw ac yn gweithio ym Mayo, Iwerddon yw Ian. Mae ei waith yn seiliedig yn bennaf ar baentio a gosodwaith.

Mae wedi arddangos yn eang mewn sioeau ar y cyd/dethol yn Iwerddon ac yn rhyngwladol yng Ngogledd Iwerddon, Yr Almaen, Ffrainc, Portiwgal, Y Swistir, Awstria, Sweden, UDA a Tsieina. Mae hefyd wedi dyfeisio a churadu nifer o sioeau yn Iwerddon.

http://www.ianwieczorek.com

**May Ming Yu (Hong Kong)**

Wedi'i geni yn Hong Kong, Tsieina. Dylunydd graffeg oedd hi. Graddiodd fel Baglor yn y Celfyddydau Cain (Cerameg) o Sefydliad Technoleg Brenhinol Melbourne, Prifysgol Melbourne, Awstralia yn 2006. Mae'n gweithio mewn cerameg a ffotograffiaeth ac mae hefyd yn diwtor mewn cerameg.

https://www.faanstudioceramics.com/cv

IG: ming.yu1

Mae'r artistiaid yma yn rhan o brosiect #rootandbranchproject

Cywaith yw Root & Branch rhwng Linda Norris a'r artist o Hong Kong, Wai Kit Lam. Cefnogwyd y gwaith gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.